# Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 1 Gorffennaf 2003

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dynodir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol*

**Jenny Randerson (Canol Caerdydd);** Yn dilyn yr ateb i'm cwestiwn atodol i OAQ24195 ar 21 Mai 2003, sut a phryd y mae'r Gweinidog yn bwriadu adrodd yn ôl i'r Cynulliad Cenedlaethol ynghylch i ba raddau y bydd 'Agenda ar gyfer Newid' yn effeithio ar gyflog ac amodau nyrsys practis. (WAQ26587)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);**Sawl achos o Staphylococcus aureus sy'n medru gwrthsefyll methicillin (MRSA) a gafodd eu cadarnhau ym mhob Ysbyty Dosbarth yng Nghymru ym mhob un o'r 5 blwyddyn galendr ddiwethaf. (WAQ26649)

**Leighton Andrews (Rhondda);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddefnyddio datganiadau ym maes addysg anghenion arbennig yn y Rhondda. (WAQ26660)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio*

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** Pa amcangyfrifon y mae'r Gweinidog wedi'u gwneud am gyfanswm y costau y mae mudiadau gwirfoddol yn eu talu i'r Swyddfa Cofnodion Troseddol. (WAQ26577)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** Pa amcangyfrifon y mae'r Gweinidog wedi'u gwneud am unrhyw gynnydd yn y gost i fudiadau gwirfoddol o ganlyniad i'r cynnydd yn ffioedd y Swyddfa Cofnodion Troseddol. (WAQ26578)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** Pa sylwadau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gan fudiadau gwirfoddol yn mynegi anfodlonrwydd â strwythur ffioedd y Swyddfa Cofnodion Troseddol. (WAQ26579)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** Pa gyllid ychwanegol y mae'r Gweinidog yn bwriadu ei roi i fudiadau gwirfoddol i gwrdd â'r cynnydd yn ffioedd Datgelu y Swyddfa Cofnodion Troseddol. (WAQ26580)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes*

**Michael German (Dwyrain De Cymru);** A all y Gweinidog ddatgan a yw swydd y

Cyfarwyddwr Cyllid yn ELWa yn cael ei dal yn barhaol. (WAQ26596)

**Michael German (Dwyrain De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatgan a yw Cyfarwyddwr Cyllid presennol ELWa ar ddyrchafiad dros dro o'r swydd Pennaeth Archwiliad Mewnol. (WAQ26595)

**Michael German (Dwyrain De Cymru);** Pryd fydd swydd Cyfarwyddwr Cyllid ELWa yn cael ei llenwi'n barhaol. (WAQ26594)

**Mark Isherwood (Gogledd Cymru);** A all y Gweinidog wneud datganiad am ymgorffori Iaith Arwyddion Prydain yng nghwricwlwm yr ysgol. (WAQ26621) **R**

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus*

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** Pa amcangyfrifon y mae'r Gweinidog wedi'u gwneud am gyfanswm y costau y mae awdurdodau lleol yn eu talu i'r Swyddfa Cofnodion Troseddol. (WAQ26581)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** Pa amcangyfrifon y mae'r Gweinidog wedi'u gwneud am unrhyw gynnydd yn y gost i awdurdodau lleol o ganlyniad i'r cynnydd yn ffioedd y Swyddfa Cofnodion Troseddol. (WAQ26582)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** Pa sylwadau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gan awdurdodau lleol yn mynegi anfodlonrwydd â strwythur ffioedd y Swyddfa Cofnodion Troseddol. (WAQ26583)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** Pa gyllid ychwanegol y mae'r Gweinidog yn bwriadu ei roi i awdurdodau lleol i gwrdd â'r cynnydd yn ffioedd Datgelu y Swyddfa Cofnodion Troseddol. (WAQ26584)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i ddatblygu Ardaloedd Gwella Busnes (AGB) yng Nghymru, a phryd y cynhelir cyfarfod nesaf grp teiran AGB a phwy sy'n gwasanaethu arno. (WAQ26641)

**Lynne Neagle (Tor-faen);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ba rai o Grwpiau Gwariant Cyllideb y Cynulliad a gaiff eu dyrannu, yn llwyr neu'n rhannol, yn y fath fodd fel eu bod yn cymryd i ystyriaeth gwledigrwydd neu deneurwydd poblogaeth. (WAQ26650)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad*

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** A yw'r Gweinidog yn gwybod am unrhyw gymorth grant o'r DU neu'r UE sy'n cael ei roi i Meat Projects, Cwm-ann i godi lladd-dy a ffatri brosesu newydd. (WAQ26585)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** A yw'r Cynulliad neu unrhyw rai o'r cyrff a noddir ganddo wedi rhoi cymorth grant i Meat Projects, Cwm-ann i godi lladd-dy a ffatri brosesu newydd. (WAQ26586)

**Brynle Williams (Gogledd Cymru);** Pa gynlluniau sydd ar y gweill i gwtogi ar yr holl gig sy'n cael ei fewnforio i'r DU yn anghyfreithlon. (WAQ26624)

**Brynle Williams (Gogledd Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddisgrifio'r costau a'r fframwaith amser a ragwelir ar gyfer gorffen Cynllun Lliniaru Llifogydd Rhuthun. (WAQ26639)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa ymchwil sy'n cael ei wneud i rygwellt GM hypoalergenig. (WAQ26640)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa drafodaethau sy'n cael eu cynnal neu sydd wedi cael eu cynnal ar wella'r camau i sicrhau bioddiogelwch ym Marchnadoedd Da Byw Cymru a phryd y mae'r Gweinidog yn bwriadu cyflwyno unrhyw newidiadau. (WAQ26642)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pryd mae'r Gweinidog yn bwriadu rhoi cynllun cenedlaethol ar gyfer casglu stoc marw yn ei le. (WAQ26643)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa gyfrifoldeb sydd gan Asiantaeth yr Amgylchedd i roi ystyriaeth i fuddiannau economaidd wrth ystyried cynigion datblygu oddi wrth y sector preifat. (WAQ26644)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa gyfrifoldeb sydd gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru i roi ystyriaeth i fuddiannau economaidd wrth ystyried cynigion datblygu oddi wrth y sector preifat. (WAQ26645)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A yw Cymru'n gymwys fel ardal o risg isel o ran nifer yr achosion o BSE, sef llai na 100 anifail dros 24 mis oed mewn miliwn. (WAQ26646)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Sawl cyfarfod cyhoeddus a gynhaliwyd yng Nghymru fel rhan o'r "Ddadl GM" a faint o bobl oedd yn bresennol ym mhob cyfarfod. (WAQ26647)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Sawl cyfarfod cyhoeddus sydd i'w cynnal yng Nghymru fel rhan o'r 'Ddadl GM'. (WAQ26648)

**Mick Bates (Sir Drefaldwyn);** Pa ganllawiau a roddwyd i'r Awdurdodau Lleol gan y Cynulliad mewn perthynas â gweithredu Rheoliadau Asesu Effeithiau Amgylcheddol (Tir heb ei Drin ac Ardaloedd Lled-naturiol) (Cymru) 2002. (WAQ26651)

**Mick Bates (Sir Drefaldwyn);** Beth mae'r Gweinidog wedi ei wneud i godi ymwybyddiaeth tirfeddianwyr am bwysigrwydd Asesu Effaith Amgylcheddol. (WAQ26652)

**Mick Bates (Sir Drefaldwyn);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddiwygio'r tir comin yng Nghymru. (WAQ26653)

**Mick Bates (Sir Drefaldwyn);** O ba gyllideb y daw'r taliadau cynnal ar gyfer cynhyrchwyr organig. (WAQ26654)

**Mick Bates (Sir Drefaldwyn);** Beth yw'r amserlen ar gyfer gwerthuso effeithiau amgylcheddol Tir Gofal. (WAQ26655)

**Mick Bates (Sir Drefaldwyn);** Pa wahanol allbynnau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol sy'n cael eu monitro ar gyfer Tir Gofal. (WAQ26656)

**Mick Bates (Sir Drefaldwyn);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y Lefel Mynediad newydd i'r Cynllun Tir Gofal a rhoi amserlen ar gyfer sefydlu'r cynllun. (WAQ26657)

**Mick Bates (Sir Drefaldwyn);** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni am lefel y gwasanaethau amgylcheddol a gyflawnwyd gan Cyswllt Ffermio a'r datblygiadau diweddaraf gyda'r Adolygiad o Gyfleoedd Amgylcheddol. (WAQ26659)

**Mick Bates (Sir Drefaldwyn);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad yn nodi a yw wedi derbyn adroddiad gweithgor y rhanddeiliaid am Reolaeth Amaethyddol ar Dir Comin. (WAQ26661)

**Mick Bates (Sir Drefaldwyn);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am unrhyw gynlluniau sydd ar y gweill i gyhoeddi Cofrestr Gyhoeddus o benderfyniadau Sgrinio mewn perthynas â Rheoliadau Asesu Effeithiau Amgylcheddol (Tir heb ei Drin ac Ardaloedd Lled-naturiol), fel y gwnaed ar wefan DEFRA yn Lloegr. (WAQ26662)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth*

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa wasanaethau rheilffordd yng Nghymru a ddiddymwyd rhwng 1997/1999 ac o 1999 hyd heddiw. (WAQ26588)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch agor gorsafoedd rheilffordd yn Bow Street a Llandre ar y llinell rhwng Aberystwyth a Borth. (WAQ26589)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y toriadau arfaethedig i'r rhwydwaith rheilffyrdd yng Nghymru. (WAQ26590)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda'r Awdurdod Rheilffyrdd Strategol mewn perthynas â'r rhwydwaith

rheilffyrdd yng Nghymru. (WAQ26591)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am unrhyw gynlluniau sydd ar y gweill i leihau'r gwasanaethau rheilffyrdd yng Nghymru. (WAQ26592)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am unrhyw gynigion gan yr Undeb Ewropeaidd a fyddai'n effeithio ar Ddilysnodi metelau gwerthfawr. (WAQ26593)

**Mick Bates (Sir Drefaldwyn);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad yn nodi a yw Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi derbyn pob un o'r argymhellion a nodwyd yn adolygiad y Pwyllgor Datblygu Economaidd o bolisi ynni yng Nghymru (Ionawr 2003). (WAQ26658)